

# Bedyddio'r Iesu

Aeth yr Iesu o Galilea i afon Iorddonen i gael Ei fedyddio gan Ioan Fedyddiwr. Wedi iddo gael Ei fedyddio, aeth yr Iesu allan o'r dŵr. Yr eiliad honno, agorodd y Nefoedd a gwelodd Ysbryd Glân yr Arglwydd yn dod i lawr fel colomen, gan aros arno. Yna, clywodd lais o'r nef yn dweud: "Hwn ydy fy Mab annwyl i; mae wedi fy mhlesio i'n llwyr."



---

**"Atebodd Iesu, 'Gwna beth dw i'n ei ofyn, dyma sy'n iawn i'w wneud.'"**

Mathew 3:15


---

Pam nad oedd Ioan  
eisiau bedyddio'r  
lesu?



Wedi i Iesu gael ei fedyddio, agorodd y  
nefoedd a daeth Ysbryd Duw arno fel .....

Rhowch gylch o gwmpas yr aderyn ddaeth i lawr ar yr  
lesu. Yna, gallwch liwio'r adar i gyd.



# Gwers 7

## Bedyddio'r Iesu

**Testun y Beibl:** Mathew 3:13-17

**Adnod allweddol:** Mathew 3:15

**Pwrpas:** Bydd y plant yn deall ystyr bedydd yr Iesu a bedydd y rhai sy'n dilyn Crist.

Nodwch os gwelwch yn dda!

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer eich grŵp o blant. Gall y gweithgareddau canlynol gael eu haddasu'n dibynnu ar faint, oed a gallu'r grŵp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ac yn y blaen.

### Gwers

Wedi i'r plant orffen lliwio'r dudalen liwio, mae'r athro/athrawes yn darllen o'r Beibl – y darn o Efengyl Mathew 3:13-17, gan ddehongli â goslef, ble daw'r ddeialog. Yna, trafodwch y darn gyda'r plant a'u helpu i ddeall bedydd drwy ddefnyddio cwestiynau ac atebion. Dyma rai o'r cwestiynau y gellid ei holi:

- Beth yw bedydd? – Cyffes o ffydd o flaen un neu fwy o dystion; symbol: marw i bechod ac atgyfodi gyda Christ i fywyd newydd – bywyd tragwyddol.
- Pwy sydd angen cael eu bedyddio a pha bryd? – Y rhai sy'n gweld eu bod yn bechaduriaid ac yn dewis derbyn yr Iesu'n Waredwr sy'n cael eu bedyddio, sy'n ffordd o gyffesu'n gyhoeddus eu bod eisiau derbyn ewyllys Duw.
- Pam gafodd yr Iesu ei fedyddio? Oedd ef wedi pechu? Na, ddim o gwbl. Nid oedd erioed wedi cyflawni pechod. Y cwbl oedd ef eisiau'i wneud oedd cyflawni ewyllys Duw, fel y gwelwn yn Mathew 3:15. Roedd eisiau bod yn esiampl i bob Cristion.
- Pam fod angen i ni gael ein bedyddio? – Er mwyn i ni wneud yr hyn sy'n iawn a dilyn yr Arglwydd Iesu.
- A yw bedydd yn achub rhywun? – Na, ddim o gwbl. Iesu Grist yn marw ar y groes sy'n ein hachub ni. Drwy fedydd yr ydym yn dangos ein bod eisiau dilyn yr Iesu ym mhob un ffordd bosibl.

## II. Gweithgareddau

### 1. Adnod allweddol

#### a. Darllenwch yr adnod o'r Beibl yn uchel:

"Atebodd Iesu, 'Gwna beth dw i'n ei ofyn, dyma sy'n iawn i'w wneud.'" Mathew 3:15

**b. Eglurwch fod yr Iesu wedi cael ei fedyddio**, nid oherwydd ei fod yn bechadur, ond oherwydd ei fod eisiau cyflawni ewyllys Duw. Mae'n esiampl i ni. Dyna pam fod yn rhaid i ni wneud yr un peth, a dim ond os ydym wedi ei dderbyn i'n bywydau yn Waredwr. Nid ar gyfer babanod y mae bedydd gan na allant hwy ddewis eto i ddilyn Iesu.

### **c. Helpwch y plant i ddysgu'r adnod o'r Beibl.**

#### **2. Adolygwch gwestiynau ar gyfer y plant:**

- Pam ddaeth Iesu at afon yr Iorddonen?
- Pam nad oedd Ioan eisiau bedyddio'r Iesu?
- Beth oedd ateb yr Iesu?
- Beth ddigwyddodd wedi i'r Iesu gael ei fedyddio?
- Beth y mae'r golomen yn ei gynrychioli?
- Pwy wnaeth siarad o'r Nef?
- Beth ddywedodd Duw?
- Pwy yw'r Iesu?

### **III. Diweddglô**

Symbol yw bedydd ac ynddo rydym yn cyfaddef ein bod yn blant i Dduw, wedi cael ein hachub gan yr Arglwydd Iesu. Nid yw bedydd yn eich hachub oddi wrth ein pechodau. Mae'n dangos nad ydym eisiau bod yn gaeth i bechod mwy a'n bod eisiau byw ym mhresenoldeb Duw. Arwydd cyhoeddus yw bedydd sy'n digwydd wedi i rywun gredu yn yr Iesu fel ei (G)waredwr. Unigolion sy'n penderfynu cael eu bedyddio. Ni all unrhyw un wneud y penderfyniad hwn drosom ni: nid mam na dad, dim ond ni'n hunain. Fe wnaeth yr Arglwydd Iesu hyd yn oed benderfynu drosto'i hun o ran cael ei fedyddio a hynny pan oedd yn oedolyn.